**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

**National Assembly for Wales**
Children, Young People and Education Committee

12 Gorffennaf 2017

Annwyl Gyfaill

## Plant a Phobl Ifanc Emosiynol Wydn

Mae Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cynnal ymchwiliad i Iechyd Meddwl ac Iechyd Emosiynol Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru. Bydd ymchwiliad y Pwyllgor yn ystyried a yw'r rhaglen 'Gyda'n gilydd dros Blant a Phobl Ifanc' ar y trywydd iawn i gyflawni'r 'newid sylweddol' sydd ei angen i wasanaethau CAMHS. Bydd hefyd yn ystyried pa mor effeithiol y bu'r rhaglen o ran hyrwyddo gwytnwch plant a phobl ifanc, gan gynnwys ffocws ar rôl addysg o ran atal problemau iechyd meddwl.

Rhaglen i wella gwasanaethau amlasiantaeth yw'r rhaglen Gyda'n gilydd dros Blant a Phobl Ifanc (T4CYP). Y nod yw ail-lunio, ail-fodelu ac ail-ganolbwyntio'r gwasanaethau iechyd meddwl a'r gwasanaethau emosiynol a ddarperir i blant a phobl ifanc yng Nghymru.

Mae Ymchwiliad y Pwyllgor yn ddeublyg. Bydd yn ystyried:

- pa mor effeithiol y bu'r rhaglen T4CYP o ran hyrwyddo gwytnwch plant a phobl ifanc drwy ymyrryd yn gynnar ac atal;
- Mynediad at CAMHS arbenigol a'r camau nesaf i CAMHS; a ydym wedi gweld y 'newid sylweddol' sydd ei angen i CAMHS

**Bydd ymchwiliad y Pwyllgor yn ystyried:**

**CAMHS Arbenigol;**

- I ba raddau y mae gwasanaethau newydd (a/neu wasanaethau sydd wedi'u haddasu) yn helpu i leihau amseroedd aros o ran CAMHS arbenigol. A yw'r gwelliannau a ddisgwyliwyd gan Lywodraeth Cymru o ran amseroedd aros ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed wedi'u bodloni;
- Beth y mae'r data yn ei ddweud wrthym am yr amrywiadau o ran arfer (mynediad teg) ledled Cymru;
- I ba raddau y mae newidiadau wedi mynd i'r afael â goratgyfeirio plant a phobl ifanc i Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed;

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPPIA@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCYPE
0300 200 6565

- Atgyfeiriadau a mynediad at Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed gan fyrddau iechyd unigol, gan gynnwys y cyfyngiadau a'r trothwyon a osodir gan y gwasanaethau hyn;
- A yw'r newidiadau wedi helpu i wella gallu CAMHS arbenigol i ymateb y tu allan i oriau ac mewn argyfwng; a yw gofal y tu allan i oriau yn gweithio'n effeithiol, ac yn edrych yn benodol ar anghenion y plant a phobl ifanc hynny sy'n cyrraedd adrannau damweiniau ac achosion brys ysbytai ac yn cael eu hasesu yno;
- A oes digon o gapasiti ar gyfer cleifion mewnol yng Nghymru.

**Cyllid**

- Gwariant blynyddol ar Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed mewn termau arian parod ac fel canran o'r gwariant cyffredinol ar iechyd meddwl, yn ôl Bwrdd Iechyd lleol;
- I ba raddau y mae mynediad at therapïau seicolegol ar gyfer pobl ifanc wedi gwella; A fu gostyngiad dilynol yn y defnydd o feddyginiaeth ar gyfer pobl ifanc;
- Sut y mae'r cyllid ychwanegol wedi cael ei ddefnyddio i wella'r ddarpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc mewn gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol;
- I ba raddau y mae'r cyllid wedi cael ei ddefnyddio i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed; er enghraifft, plant sydd mewn gofal, plant a phobl ifanc sydd ag Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (ADHD) ac anhwylderau sbectrwm awtistig, a'r rhai sydd eisoes yn y system cyfiawnder ieuenctid neu'n wynebu risg o fynd i mewn i'r system, gan gynnwys y rhai sy'n cael eu cadw o dan adran 136 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983;
- Effeithiolrwydd y trefniadau cynllunio a chomisiynu presennol i fynd i'r afael ag anghenion pobl ifanc sy'n datblygu arwyddion cynnar o salwch meddwl difrifol, fel seicosis.

**Pontio i Wasanaethau Oedolion**

- Pa mor dda y mae'r broses o bontio i wasanaethau iechyd meddwl oedolion yn cael ei chynllunio a'i rheoli.

**Cysylltiadau ag Addysg (deallusrwydd emosiynol a dulliau ymdopi iach);**

- Y gwaith sy'n cael ei wneud i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn fwy gwydn ac yn gallu mynd i'r afael â lles meddyliol gwael pan fo'n digwydd, gan gynnwys:
    - datblygu'r Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles fel rhan o'r cwricwlwm newydd;
    - mynediad plant at nyrsys ysgol a'r rôl y gall nyrsys ysgol ei chwarae wrth ddatblygu gwytnwch a chefnogi lles emosiynol;

- i ba raddau y mae gwasanaethau iechyd, addysg a gofal cymdeithasol yn gweithio gyda'i gilydd;
- faint o wasanaethau cymorth lefel is ac ymyrraeth gynnar a ddarperir ar hyn o bryd a faint sy'n eu defnyddio; er enghraifft, gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion.

Bydd y Pwyllgor yn ystyried y dystiolaeth sy'n dod i law fel rhan o'r ymchwiliad hwn yng nghyd-destun y gwaith o weithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011.

Mae'r Pwyllgor wedi ymrwymo i gynnwys plant a phobl ifanc yn ei waith. Bydd yr ymchwiliad hwn yn sicrhau bod barn a phrofiadau plant a phobl ifanc, eu teuluoedd a'u hymarferwyr yn cael eu dal mewn ffordd ddefnyddiol, sensitif ac adeiladol.

## Gwahoddiad i gyfrannu i'r ymchwiliad

Hoffai'r Pwyllgor eich gwahodd i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i gynorthwyo â'r ymchwiliad. Dylech anfon copi electronig o'ch ymateb at: SeneddPPIA@Cynulliad.Cymru

Dylid cyflwyno ymatebion erbyn **dydd Gwener 29 Medi 2017.** Mae'n bosibl na fydd modd ystyried unrhyw ymateb a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn.

### Arolwg o Gysylltiadau ag Addysg

Ym mis Medi, bydd y Pwyllgor hefyd yn lansio arolwg wedi'i deilwra sy'n anelu'n benodol at y rhan hwnnw o'r ymchwiliad sy'n edrych ar gysylltiadau ag addysg (deallusrwydd emosiynol a dulliau ymdopi iach). Bydd yn rhoi cyfle i athrawon, staff a disgyblion roi tystiolaeth uniongyrchol am eu profiadau. Bydd yr arolwg yn agored drwy gydol mis Medi.

### Canllawiau

Ni ddylai'r dystiolaeth fod yn hwy na phum ochr tudalen A4. Dylid rhifo'r paragraffau, a dylai'r dystiolaeth ganolbwyntio ar y cylch gorchwyl.

Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, dylech roi disgrifiad byr o rôl eich sefydliad.

Gweler y canllawiau i dystion sy'n cyflwyno tystiolaeth i bwyllgorau.

### Polisi dwyieithrwydd

Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ddwy iaith swyddogol, sef Cymraeg a Saesneg.

Yn unol â Chynllun Ieithoedd Swyddogol y Cynulliad, mae'r Pwyllgor yn gofyn i ddogfennau neu ymatebion ysgrifenedig i ymgynghoriadau y bwriedir eu cyhoeddi neu eu defnyddio yn nhrafodion y Cynulliad Cenedlaethol gael eu cyflwyno yn ddwyieithog. Pan na chaiff dogfennau neu ymatebion ysgrifenedig eu cyflwyno yn ddwyieithog, byddwn yn cyhoeddi yn yr iaith a gyflwynwyd, gan ddweud eu bod wedi dod i law yn yr iaith honno'n unig.

Rydym yn disgwyl i sefydliadau eraill weithredu eu safonau neu eu cynlluniau eu hunain a chydymffurfio â'u rhwymedigaethau statudol.

**Datgelu gwybodaeth**

Mae rhagor o fanylion am sut y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth yn www.cynulliadcymru.org/cy/help/privacy/help-inquiry-privacy.htm. Gofynnwn ichi sicrhau eich bod wedi ystyried y manylion hyn yn ofalus cyn cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor.

**Manylion cyswllt**

Os hoffech siarad â rhywun am yr ymgynghoriad hwn, defnyddiwch y manylion cyswllt a ganlyn:

Clerc y Pwyllgor
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, CF99 1NA
E-bost: SeneddPPIA@Cynulliad.Cymru
Ffôn: Rhif Ffôn: 0300 200 6565

Yn gywir

**Lynne Neagle AC**
Cadeirydd